# Adolygiad o'r ddarpariaeth cynhwysiant yng Ngwynedd

Caroline Rees Cyf.

Rhagfyr 2023

## SYLWADAU CYFFREDINOL

- Mae'r Awdurdod Lleol wedi bod yn ddewr wrth gamu ymlaen i geisio creu canolfannau i gefnogi'r disgyblion mwya bregus ym maes anawsterau, cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY).
- Mae'r trefniant yn gyffredinol wedi ei strwythuro'n gryfach na'r rhaglen flaenorol sef Pecyn 25.
- Mae potensial cryf i'r egwyddor o gysylltu y fath ddarpariaeth gyda'r ysgolion uwchradd.
- O ran beth a welwyd yn ystod yr adolygiad, mae'r berthynas rhwng y staff a'r bobl ifanc yn eu gofal yn gadarn ac iddo'r potensial i ddatrys rai o anawsterau'r disgyblion. Mae rhai disgyblion, a'u rhieni, yn tystio eu bod wedi gwneud cynnydd da iawn wrth weithio gyda staff yr hybiau.
- Yn yr achosion pan fo disgyblion wedi mynychu'n gyson, mae'r hybiau wedi llwyddo i sicrhau cymwysterau sylfaenol a dilyniant i'r disgybl i gyrchfan wedi eu dyddiau yn yr hwb.
- Mae'r staff yn llwyddo y tu hwnt i'r hyn y byddai rhywun yn gallu disgwyl i'r amodau, adnoddau a'r strwythurau ei ganiatáu.
- Mae'r systemau diogelu ansawdd sydd yn eu lle yn annigonol.
- Yn dilyn sgyrsiau gyda'r penaethiaid, mae hi'n ymddangos fod yr ysgolion yn amrywio yn sylweddol yn y ddarpriaeth a gynigir i geisio adfer disgyblion gydag ACEY.

## ARGYMHELLION CYFFREDINOL

- Mae angen i'r awdurdod lleol weithio gydag arweinwyr ysgolion i gyd-lunio strategaeth effeithiol ledled y sir o ddarpariaeth yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol sy'n cofleidio egwyddorion allweddol eglurder diben, perchnogaeth, sicrhau ansawdd a dilyniant
- Darganfod lleoliadau addas ar gyfer darpariaeth y tu allan i'r ysgol
- Er mwyn sicrhau gweithredu strategaeth yn effeithiol, rydym yn argymell mabwysiadu statws Uned Cyfeirio Disgyblion ffurfiol ar gyfer darpariaeth y tu allan i'r ysgol ar gyfer disgyblion ag ACEY a fyddai'n elwa o ddarpariaeth o'r fath.

## Cefndir

Yn ystod Ionawr/Chwefror 2020, comisiynwyd Mrs Caroline Rees i gynnal adolygiad o Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Gwynedd / Môn (ADY) a Chynhwysiant. Cynhaliwyd yr adolygiad dros gyfnod o 4 wythnos.

Darparwyd adroddiad cynhwysfawr yn amlinellu camau ar gyfer datblygu pellach ac o ganlyniad un o'r meysydd a nodwyd oedd yr angen i ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer ymddygiad ym mlwyddyn 9 a chyfnod allweddol 4, gan gynnwys gwell model ar gyfer Pecyn 25 (sef y ddarpariaeth amgen ar gyfer dysgwyr nad oeddent yn gallu llwyddo o fewn addysg prif ffrwd).

Yn dilyn y gwaith hwn, ad-drefnwyd y Gwasanaeth Cynhwysiant yn ei gyfanrwydd i newid y ddarpariaeth. Roedd hyn yn cynnwys:

- Ailfodelu strwythur staffio'r Gwasanaeth Cynhwysiant i gynnwys cymorth ymestyn allan a chreu un Canolfan Adnoddau Arbenigol (Llechen Lân)
- Comisiynu dwy Ysgol Uwchradd i ddarparu Hybiau i bobl ifanc ym mlwyddyn 9-11 gydag ACEY sylweddol, gyda ffocws o fewn yr Hybiau o ddarparu:
  - Disgyblion i gael ystod ehangach o bynciau
  - Disgyblion i gael eu dysgu athrawon cymwys

***Nod y ddarpariaeth ddiwygiedig /newydd oedd:***

- Gwella continwwm y ddarpariaeth a gynigir i blant a phobl ifanc gydag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad.
- Sicrhau darpariaeth addysgol briodol i ddysgwyr sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol a/neu ymddygiad.
- Lleihau nifer y gwaharddiadau yn enwedig gwaharddiadau parhaol
- Lleihau nifer y plant/Pobl Ifanc sy'n dod yn hysbys i'r Gwasanaethau Plant neu ddod yn 'NEET'.

### Arolygiad Estyn - Mehefin 2023

Nododd Estyn y diffygion canlynol:

- *nid yw’r camau y dylid eu dilyn yn yr ysgol na’r ymyraethau y dylid eu rhoi mewn lle cyn gwneud cais i ddisgybl gael mynediad i’r hybiau cefnogi ymddygiad yr un mor glir.*

- *Mae statws y lleoliadau hyn yn annelwig gan nad ydynt yn gofrestredig fel unedau cyfeirio disgyblion er mai fel hynny maent yn gweithredu.*

- *Mae anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol y disgyblion sy'n mynychu'r hybiau unigol yn amrywiol. O ganlyniad, mae teilwra'r ddarpariaeth i gwrdd ag anghenion penodol disgyblion unigol o fewn yr hybiau hyn yn her.*

- *mae gormod o amrywiaeth ym mhriodoldeb yr adeiladau ac yn amrediad yr adnoddau dysgu yn yr hybiau i ddarparu addysg arbenigol sy'n cefnogi lles ac ymddygiad disgyblion bregus.*

- *Er bod swyddogion ansawdd a swyddogion perthnasol eraill yn rhan o drefniant cychwynnol lleoli disgyblion yn yr hybiau, nid oes cyswllt digon cyson rhyngddynt a rheolwyr yr hybiau i'w galluogi i gefnogi eu gwaith a rhoi arweiniad iddynt.*

- *Mae hyn yn cynnwys anghysondeb yn nhrefniadau monitro, sicrhau ansawdd ac asesu risg.*

- *ganlyniad nid oes gan uwch swyddogion gwasanaethau addysg Gwynedd drosolwg strategol o'r deilliannau na natur nac ansawdd y ddarpariaeth yn yr hybiau.*

(Gellir dod o hyd i ddarn o adroddiad Estyn Gwynedd yn atodiad 2).

**Gwnaeth Estyn (Mehefin 2023) dri argymhelliad:**

*A1 Sicrhau bod arweinwyr yn gweithredu yn strategol ar bob agwedd o'u gwaith a bod ganddynt oruchwyliaeth addas ac ystyriaeth lawn o risg ynghylch agweddau pwysig sydd wedi codi yn ystod yr arolygiad*

*A2 Gwella trefniadau monitro, gwerthuso a hyrwyddo presenoldeb disgyblion*

*A3 Cryfhau'r ddarpariaeth i ymateb i anghenion disgyblion â chanddynt anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a sicrhau trefniadau monitro a gwella ansawdd y ddarpariaeth honno*

Mae'r rhain i gyd yn berthnasol i'r adolygiad hwn.  Er bod yr ail argymhelliad yn berthnasol i bresenoldeb ar draws Gwynedd gyfan, mae presenoldeb yn y canolfannau yn faes sy'n peri pryder.

Yn dilyn arolygiad Estyn, comisiynwyd Caroline Rees Ltd. i ymgymryd ag adolygiad pellach.  Mae’r briff hwnnw yn atodiad 1.

## Natur yr adolygiad

Roedd yr adolygiad yn cynnwys:

**Cyfarfodydd timau gyda phenaethiaid/dirprwy benaethiaid o'r ysgolion canlynol:**

- Ysgol Ardudwy – Aled Williams
- Ysgol Tywyn – David Thorp
- Ysgol Botwnnog – Aled Williams
- Ysgol Bro Idris – Jano Owen
- Ysgol Brynrefail – Arwyn Williams
- Ysgol Dyffryn Ogwen – Dylan Davies
- Ysgol Eifionydd – Dewi Bowen
- Ysgol Dyffryn Nantlle – Rhian Parry Jones
- Ysgol Glan y Mor – Guto Wyn
- Ysgol Syr Hugh Owen – Clive Thomas
- Ysgol Tryfan – Geraint Jones
- Ysgol y Moelwyn – Eleri Moss
- Ysgol Friars – Martin Williams

**Cyfarfodydd  ar Teams gyda staff sy'n gyfrifol am y canolfannau:**

- Caren Ann Williams (Llechen Lan)
- Dyfrig Jones (Ysgol Tryfan)
- Barry Evans (Ysgol y Moelwyn)

ac ar wahân cyfarfodydd ychwanegol gyda'r ddau Bennaeth yn goruchwylio'r Hybiau Geraint Jones ac Eleri Moss

**Cyfarfodydd Teams gyda swyddogion yr ALI**

- Ffion Edwards Ellis (Uwch Rheolwr ADY a CH)
- Ellen Rowlands (Rheolwr Cynhwysiad)
- John Eifion Jones (Swyddog Lles Cynhwysiad)

- Meinir Bolton (Uwch Swyddog Lles)
- Lora Glynwen Williams (Swyddog Ansawdd)
- Non Eleri Samuel (Swyddog Ansawdd ADYaCH)
- Elenid Glyn (Dirprwy Brif Seicolegydd Addysgol)
- Dora Wendi Jones (Uwch Gwnselydd)
- Gwyn Tudur (Pennaeth Cynorthwyol: Uwchradd)

**Ymweliadau â'r canolfannau a Llechen Lan, gan gynnwys cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda staff**

1. Moelwyn – Ty'r ysgol
2. Clwb pêl-droed Porthmadog
3. Capel ym Mangor
4. Clwb pêl-droed Caernarfon
5. Llechen Lan.

**Sgyrsiau gyda disgyblion a staff a rhieni ac arolygon**

**Craffu ar ddogfennau, yn cynnwys:**

- Adroddiad Estyn 2023
- Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad (crynodeb)
- Memorandwm o ddealltwriaeth 'Comisiwn Cynhwysiad' Ysgolion Uwchradd Gwynedd
- Cylch Gorchwyl Bwrdd Rheoli
- Adroddiadau i'r Bwrdd Rheoli
- Cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli 16/3/23 a 14/7/23
- Agenda Bwrdd Rheoli Hybiau Gwynedd 14/7/23 - rhithiol
- Y Drefn Cyfeirio i Ganolfan Llechen Lan a Hybiau Addysgol
- Cynllun Datblygu Hybiau Cynhwysiad Arfon 2022-23 a 2023-24
- Cynllun Busnes Tim Cynhwysiad Mawrth 2022 – Mawrth 2023 a Mawrth 2023 – Mawrth 2024
- Amserlenni disgyblion yr hybiau
- Taenlen monitro/r Bwrdd Rheoli
- Cofnodion cyfarfod Swyddog Ansawdd Ysgol y Moelwyn
- Llawlyfr Llechan Lan i rhieni
- Cwestiynau allweddol i nendroni cyn ystyried gwahardd disgybl
- Protocol Symud Drwy Drefniant (SDD)
- Engreifftiau o Asesiadau Risg
- Llyfryn Gwybodaeth Cyffredinol i Rhieni a Disgyblion – hwb y Moelwyn

## Canfyddiadau ac argymhellion

### Cynllunio Strategol ar gyfer ymddygiad gan yr awdurdod lleol

- Yn 2023, adroddodd Estyn fod gwelliant sylweddol wedi'i wneud i gynllunio strategol gwasanaethau ar gyfer disgyblion â ACEY:

> *Dros amser, mae prosesau strategol a gweithredol gwasanaethau addysg Gwynedd i ymateb i anghenion disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol wedi gwella yn sylweddol. Erbyn hyn, mae gweledigaeth arweinwyr i gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion bregus hyn yn glir ac addas.*

- Un o'r newidiadau allweddol oedd datblygu hybiau uwchradd, wedi'u cysylltu'n agos â dwy ysgol uwchradd. Roedd hybiau Ysgol Tryfan ac Ysgol y Moelwyn yn agor ym mis Medi 2021. Mae Llechen Lan wedi bod ar agor ers 2018. Yn wreiddiol roedd tair canolfan o'r fath - Tŷ Nantlle, Tŷ Cybi a Thŷ’r Moelwyn.
- Ers mis Medi 2021, dim ond un ganolfan sydd wedi bod sef Tŷ Nantlle.
- Er fod yr hybiau yn caniatáu mynediad o flwyddyn 9 i 11, gwelir blwyddyn 9 fel eithriad yn unig. Mae hyn yn wendid yn y system ddylai hawlio sylw. Mae blwyddyn 9 yn aml yn flwyddyn gwbl allweddol yn natblygiad y dysgwr.
- Mae strategaeth eglur gan y Sir ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol a Cynhwysiad. Mae hon yn esbonio’r ystod o wasanaethau sydd ar gael i gefnogi plant sydd ag ACEY, yn cynnwys timoedd yr awdurdod lleol a’r hybiau. Mae Memorandwm o ddealltwiraeth gan y sir a’r ysgolion sy’n sail i “Comisiwn Cynhwysiad” Ysgolion Uwchradd Gwynedd.
- Mae’r Memorandwm o ddealltwriaeth yn gosod allan rolau a chyfrifoldebau allweddol , yn cynnwys:
  - Sut fydd dysgwyr yn cael mynediad i’r ddarpariaeth
  - Be sy’n cael ei ddarparu
  - Be fydd statws cofrestriad dysgwyr
  - Cyllideb
  - Pwy sydd a Chyfrifoldeb am ansawdd a rheolaeth y ddarpariaeth
  - Gwybodaeth am y Bwrdd Rheoli
- Er gwaethaf yr uchod, un o'r prif bryderon sydd wedi codi o'r adolygiad hwn yw'r diffyg eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau.

**Cynllunio ar gyfer Gwella**

- Yn ystod cyfarfodydd gyda'r ysgolion a staff yr awdurdod lleol, nodwyd y pwyntiau canlynol ganddyn nhw:
- Mae diffyg darpariaeth i ddisgyblion ym mlwyddyn 9 - mae Llechen Lan ar gyfer blynyddoedd 5 i 8. Mae'r canolfannau uwchradd yn bennaf ar gyfer blynyddoedd 10 ac 11. Mae disgyblion Blwyddyn 9 yn mynychu fel eithriad yn unig, tra cydnabyddir gan addysgwyr bod Blwyddyn 9 yn aml yn flwyddyn hanfodol wrth ddatblygu ymddygiadau priodol ar gyfer dysgu.
- Nid yw'r canolfannau uwchradd mor effeithiol ag y dylent fod.
- Er bod ymddygiad yn cael ei drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd ar gyfer dirprwy benaethiaid neu reolwyr cynhwysiant, anaml iawn y mae penaethiaid yn cymryd rhan mewn trafodaethau strategol gyda swyddogion yr ALl ar ddarpariaeth ymddygiad neu fentrau eraill.
- Mae sawl pennaeth yn teimlo eu bod yn cael gwybod am benderfyniadau a wneir gan swyddogion yr ALl ond nad ydynt yn rhan o drafodaethau cyn i'r penderfyniadau gael eu cymryd.
- Teimla nifer sylweddol o'r penaethiaid nad yw eu barn yn cael ei cheisio'n rheolaidd i ddatblygu strategaethau ledled y sir sy'n effeithio ar eu hysgolion a'u dysgwyr.
- Mae yna farn ymhlith penaethiaid bod ymddygiad wedi dod yn fwy heriol ers y pandemig (adlewyrchir hyn y tu allan i Wynedd hefyd).
- Mae nifer fawr o'r penaethiaid yn teimlo ei bod yn bryd cael sgwrs ar draws y sir i gyflwyno cynllun cynhwysfawr ar gyfer gwella ymddygiad a chefnogi'r dysgwyr hynny y mae eu hymddygiad yn tanseilio eu haddysg eu hunain ac addysg eraill.
- Mae gan yr ALl gyfres o gynlluniau datblygu. Un o'r cynlluniau hyn a roddwyd i'r tim adolygu yw'r Cynllun Busnes Tim Cynhwysiad syn' nodi rhai o'r meysydd lle mae angen gwella. Fodd bynnag, dylid gwella'r cynllun hwn yn y ffyrdd canlynol:
  - Mewn nifer o achosion mae'r camau gweithredu yn rhy eang ee. 'Cynllunio cefnogaeth bwrpasol i ddisgyblion fwyaf bregus y Sir' a 'Parhau i ddatblygu 'r ddarpariaeth CA3 (Bl9) Rhaglen ar waith'. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i swyddogion wybod beth sydd angen ei wneud. Mae angen torri'r camau gweithredu i gamau llai.
  - Yn aml, nid yw dyddiadau targed yn ddigon penodol e.e. 'Parhaus.'
  - Nid oes tystiolaeth yn y ddogfen hon i ddangos bod cynnydd yn erbyn y cynllun 22/23 wedi cael ei fonitro neu ei werthuso. Dylid ychwanegu colofn lle mae cynnydd yn erbyn pob gweithred yn cael ei gofnodi a'i fonitro.
  - Mae'r cynllun hwn yn nodi camau i'w cyflawni gan y Tim Cynhwysiad, ond nid yw'n glir sut mae'r cynllun yn cysylltu â chynlluniau tîmau eraill.

- Er mwyn sicrhau gwelliant, mae angen cynllun datblygu cyffredinol sy'n ymwneud â maes ACEY, sy'n cynnwys camau gweithredu gofynnol gan ystod o wasanaethau ac ysgolion.

Mae’r ALl yn adrodd eu bod wedi gwella prosesau monitro o’i gymharu a’r hyn a nodwyd uchod.

| **Argymhellion:**<br><br>**Sefydlu grŵp i ddatblygu strategaeth glir ar gyfer cefnogi disgyblion â ACEY, sy’n gynnwys uwch arweinwyr ysgolion a swyddogion yr ALlau.**<br><br>**Datblygu ethos o gyd-greu lle mae arweinwyr ysgolion a swyddogion yr ALl yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau gwelliant yn hytrach na'r ALl yn hysbysu ysgolion o'r hyn sy'n mynd i ddigwydd.**<br><br>**Mynd i'r afael â'r bwlch yn y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 9.** |
|---|

**Darpariaeth ar gyfer disgyblion â ACEY mewn ysgolion prif ffrwd**

- Mae gallu ysgolion uwchradd prif ffrwd ar draws Gwynedd i ddiwallu anghenion disgyblion â ACEY yn amrywio. Roedd uwch reolwyr o rai ysgolion yn gallu disgrifio ystod ehang o ymyriadau ac opsiynau cwricwlwm amgen a ddefnyddiwyd i ymgysylltu â, a chadw disgyblion. Roedd eraill yn llai ymwybodol o’r posibiliadau. Mae'r rhain yn cynnwys addasiadau cwricwlaidd (rhyddhau hanner diwrnod), ymgysylltu â darparwyr allanol, cymorth cwnsela, datblygu lleoliadau ar safleoedd ysgolion er mwyn cael seibiant a llonyddwch. Mae atgyfeiriadau i'r panel yn adlewyrchu'r gwahaniaeth hwn gan y gofynnir i ysgolion ddarparu tystiolaeth o'r hyn y maent wedi'i wneud o ran ymyriadau.
- Mae teimlad cyffredinol fod anghenion dysgu ychwanegol rhai o’r bobl ifanc yn cyfrannu yn sylweddol at eu anawsterau ymddygiadol, ond weithiau mae’r ysgolion yn ffocysu ar eu hymddygiad yn fwy na’r anghenion addysgol sy’n cyfrannu at eu anawsterau ymddygiadol. Byddai’n dda i’r fodelu y cysylltiad amlwg rhwng Cynhwysiad ac ADY.
- Mae'r ALl yn cynnig hyfforddiant i bob ysgol mewn, er enghraifft, y cynllun ysgolion sy'n wybyddus o drawma. Fodd bynnag, nid yw pob ysgol yn manteisio yn eang ar y cynnig. Er na all awdurdod lleol orfodi ysgolion i gytuno i hyfforddiant mae’r cyfweliadau gyda’r penaethiaid yn awgrymu’n gryf y byddai awydd i gael ffordd gytûn ymlaen o ran ymddygiad, ac y byddai’n amserol i’r ALl gymryd mantais o’r fath gonsensws.

- Pan fydd staff yr ysgol yn mynychu hyfforddiant, nid yw'r wybodaeth a gânt bob amser yn cael ei throsglwyddo yn effeithiol i staff eraill. Yn ddelfrydol, byddai hyfforddiant ysgol gyfan yn cael ei gynnal. Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw hyn yn ymarferol bob amser.
- Mae arweinwyr ysgolion a staff yr awdurdod yn gyffredinol yn cydnabod mai darpariaeth yn y brif ffrwd ddylai gael ei ddarparu, bob tro mae hynny'n bosib. Fodd bynnag, pan fydd trefniant yn torri i lawr, mae hi weithiau'n angenrheidiol i ddisgybl symud i ysgol arall. Mae protocol symudiadau drwy drefniant (SDD) manwl sy'n disgrifio'n glir y camau i'w cymryd. Yn 2023, adroddodd Estyn:

> *Mae protocol a threfniadau 'symud drwy drefniant' yr awdurdod yn briodol ac yn arwain at ddeilliannau cadarnhaol i ddisgyblion yn y mwyafrif o achosion.*

- Fodd bynnag, nid yw pob ysgol yn dilyn y protocol. Dywed swyddogion yr ALl fod yr ALl wedi arfer cymryd rhan ym mhob SDD. Erbyn hyn, fodd bynnag, dywed swyddogion fod penaethiaid yn fwy tebygol o godi'r ffôn i ysgol arall i ofyn iddynt gymryd disgybl.
- Awgrymir, ar adegau, fod ysgolion yn perswadio rhieni i ganiatáu i'w plentyn symud ysgol er mwyn osgoi gwaharddiad parhaol.
- Mae nifer y SDD a adroddir i'r ALl gan yr ysgolion yn debygol o fod yn anghywir gan nad yw'r ysgolion bob amser yn dilyn y protocol y cytunwyd arno. Mae'r awdurdod lleol yn nodi eu bod wedi codi'r pryder hyn droeon gyda'r ysgolion.
- Mae'r diffyg data cywir a nodir yn y pwynt blaenorol yn golygu ei fod yn anodd i'r awdurdod lleol fonitro patrymau a difrifoldeb y sefyllfa.
- Mae rhai ysgolion yn cymryd nifer uchel o ddisgyblion SDD. Mae hyn yn rhoi pwysau ar yr ysgolion hyn.
- Mae'r ddarpariaeth ar draws Gwynedd yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae disgwyl i ddisgyblion fod yn gwbl ddwyieithog. Fodd bynnag, nid oes gan bob disgybl sy'n symud o Friars i ysgolion eraill na'r Hybiau afael ddigonol ar y Gymraeg i allu cymryd rhan lawn mewn amgylchedd Cymraeg, ac felly mae'r hybiau'n gweithredu gyda chanran uchel o'r gwaith yn Saesneg.

**Argymhellion:**

**Er mwyn taclo'r amrywiaeth rhwng ysgolion a'i gilydd mae angen datblygu system i rannu arfer dda o ran rheoli cynhwysiant.**

**Mae angen i'r awdurdod lleol weithio gyda'i phenaethiaid i greu perchnogaeth dros unrhyw ffordd ymlaen fydd yn cael ei gytuno. Gallai**

**hyn olygu cytundeb o ran strategaeth a raglen hyfforddi eang i holl ysgolion y sir.**

**Gweithio gyda'r ysgolion i wneud yn siŵr fod y protocol SDD yn cael ei anrhydeddu'n llawn gan bob ysgol.**

**Effaith y strategaeth ar ymddygiad/gwaharddiadau, presenoldeb a rheiny sydd ddim mewn addysg neu hyfforddiant (NEET)**

**Gwaharddiadau**

- Adroddir bod ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn well yn yr hybiau nag yn eu lleoliadau blaenorol. Fodd bynnag, nid oes systemau ffurfiol ar waith ar gyfer tracio ymddygiad a nodi tueddiadau.
- Mae'n arferol i leoliadau ymddygiad fel y canolfannau hyn gael system gofnodi electronig sy'n caniatáu i staff ddadansoddi data, nodi tueddiadau a defnyddio'r wybodaeth i gynllunio yn ogystal â gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth a'r ymyriadau.
- Mae Llechen Lan yn mesur cynnydd disgyblion mewn perthynas â'u hymddygiad a'u rhyngweithio cymdeithasol trwy ddefnyddio Proffil Boxall ac adolygiadau 6 wythnos a 12 wythnos. Fodd bynnag, byddent hefyd yn elwa o system electronig fel y soniwyd uchod.
- Yn yr un modd, nid oes system ar waith ar gyfer dadansoddi neu ddangos effeithiolrwydd cyffredinol y ddarpariaeth e.e. canran y disgyblion sy'n dychwelyd i'r ysgol yn llwyddiannus.
- Mae'r ALl wedi cynhyrchu canllawiau defnyddiol i ysgolion gan gynnwys cwestiynau allweddol i'w hystyried cyn gwahardd disgybl.
- Mae'r Swyddog Lles Cynhwysiant yn gweithio gyda'r ysgolion i sicrhau fod prosesau cyson yn cael eu mabwysiadu.
- Roedd nifer y gwaharddiadau parhaol o ysgolion uwchradd yng Ngwynedd yn sylweddol uwch yn 2022/23 nag mewn blynyddoedd blaenorol, fel y dangosir gan y tabl canlynol:

| Blwyddyn | Uwchradd - Parhaol | Uwchradd - Penodol |
|---|---|---|
| 2017/18 | 4 | 282 |
| 2018/19 | 13 | 349 |
| 2019/20 | 13 | 410 |
| 2020/21 | 6 | 418 |
| 2021/22 | 8 | 504 |
| 2022/23 | **44** | **736** |

Mae hyn er gwaethaf y ffaith mai un o nodau'r ddarpariaeth hwb oedd 'Lleihau nifer y gwaharddiadau yn enwedig gwaharddiadau parhaol'. **Mae hwn yn destun sydd angen sylw sylweddol gan yr awdurdod a'r ysgolion ar fyrder.**

| |
|---|
| **Argymhelliad:**<br><br>**Gweithio ar frys i adolygu'r cynnydd sylweddol a sydyn mewn gwaharddiadau parhaol o'r ysgolion uwchradd, a cytuno ar ffordd ymlaen.** |

**Presenoldeb**

- Mae yna enghreifftiau lle mae ymgysylltiad a phresenoldeb disgyblion wedi gwella'n sylweddol, ond nid yw hyn yn wir am yr holl ddisgyblion.
- Mae presenoldeb yn yr hybiau yn isel ar y cyfan, er y dylid cydnabod bod gan lawer o ddisgyblion gefndiroedd heriol iawn a bod rhai wedi colli cyfnodau sylweddol o addysg cyn iddynt gael eu lleoli yn yr hybiau.
- Nid oes system i ddadansoddi patrymau mewn presenoldeb na prydlondeb.
- Ym Mangor a Chaernarfon, mae'r ffigurau presenoldeb a adroddir yn cynrychioli'r sesiynau y disgwylir i ddisgyblion unigol eu mynychu yn unig, e.e. bydd disgybl sy'n cael ei ddyrannu 12 awr yr wythnos yn cael ei nodi fel presenoldeb o 100% os yw'n mynychu'r 12 awr honno. Mae hyn yn rhoi argraff camarweiniol i'r bwrdd rheoli.

| |
|---|
| **Argymhellion:**<br><br>**Datblygu systemau ar gyfer tracio ymddygiad a phresenoldeb/prydlondeb disgyblion yn yr hybiau a Llechen Lan.**<br><br>**Defnyddio'r data i nodi ac arfarnu tueddiadau a chynllunio ymyraethau.**<br><br>**Sicrhau bod y ffigurau presenoldeb a gofnodwyd ac yr adroddir amdanynt yn gywir, er enghraifft os mai dim ond 2 ddiwrnod o ddarpariaeth sydd gan ddisgybl bob wythnos, ni all ei bresenoldeb fod yn fwy na 40%.**<br><br>**Egluro pa bryd y dylid cau cofrestrau yn ystod sesiynau bore a phrynhawn.**<br><br>**Dylai'r ALI fonitro cofnodi presenoldeb.**<br><br>**Dylai canolfannau gofnodi prydlondeb yn ogystal â phresenoldeb, i nodi patrymau a rhoi strategaethau ar waith i wella prydlondeb.** |

**Pobl Ifanc sydd ddim mewn addysg neu hyfforddiant - NEET**

O ddata Gyrfa Cymru, o gyrchfannau blwyddyn 11 wedi gadael yr ysgol, mae'r ffigyrau fel a ganlyn.

**Niferoedd a % NEET**

**2019**
Gwynedd 25 (2.2%)
Cymru 537 (1.8%)

**2020**
Gwynedd 14 (1.2%)
Cymru 527 (1.7%)

**2021**
Gwynedd 18 (1.5%)
Cymru 365 (1.1%)

**2022**
Gwynedd 23 (1.8%)
Cymru 664 (2.1%)

- Gwelir mai niferoedd cymharol fach sydd gan y Sir, ac mae hi'n anodd dod i gasgliadau ystyrlon am yr hyn y mae'r data yn ei ddweud. Fodd bynnag, fe welir fod ffigwr Gwynedd yn flynyddol o fewn terfynnau weddol agos i ffigyrau Cymru.
- Wrth sgwrsio gyda phobl ifanc yr hwb, fe ddaeth hi'n amlwg fod rhai wedi llwyddo i adnabod gyrfa darged ac yn nodi mai'r hwb oedd wedi eu hannog. Heb y fath anogaeth, mae'n debyg mai NEET fyddai mwya tebygol i rhain. Yn ôl y dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr hybiau, mae eu disgyblion nhw wedi llwyddo i gael dilyniant addysg, swydd neu hyfforddiant ar ôl eu cyfnodau yn yr hwb. Fodd bynnag, mynegwyd pryder am ddisgyblion 2023-24 sydd yn ymddangos yn fwy heriol, a'u presenoldeb yn wannach.
- Mae hi'n gynnar i dracio disgyblion yr hybiau trwy eu haddysg bellach/gyrfa, ond byddai'n werthfawr i'r hybiau geisio cadw y fath ddata.

**Cefnogaeth i Ysgolion Uwchradd**

- Mae ysgolion yn troi at ystod o bobl i gefnogi eu plant mwyaf anghenus o ran ACEY e.e. seicolegwyr addysg, tim Ymestyn Allan, gweithwyr cymdeithasol, gwasanaeth cwnsela, gwasanaethau plant, gwasanaethau lles, gweithwyr ieuenctid ac elusennau.
- Mae'r gwasanaethau hyn a holwyd wedi nodi eu bod yn dueddol o weithio yn ynysig, heb integreiddiad gyda'r gwasanaethau eraill.
- Mae penaethiaid yn dweud nad yw pob ysgol yn eglur ynghylch sut i gael gafael ar y gwahanol wasanaethau, na sut y gellir eu defnyddio'n fwyaf effeithiol
- Mae tîm Ymestyn Allan wedi cael ei ehangu'n ddiweddar i gefnogi ysgolion uwchradd yn ogystal ag ysgolion cynradd. Mae adroddiadau'n cael eu hysgrifennu yn dilyn pob ymweliad. Mae staff ysgolion yn gwerthfawrogi'r ffaith bod ganddyn nhw rywun i siarad â nhw. Fodd bynnag, nid oes system ar waith i alluogi'r tîm i ddadansoddi tueddiadau nag arfarnu gwerth yr ymweliadau.
- Mae tystiolaeth wedi ei recordio gan Llechen Lan (Boxall Profile) sy'n dangos fod disgyblion uwchradd sy'n cael darpariaeth yn Llechen Lan yn gyffredinol yn gwneud cynnydd da o ran ymddygiad yn ystod eu arhosiad cymharol fyr, ac yn dychwelyd i'r brif ffrwd.
- Mynegwyd pryder fod plant yn dychwelyd i'r ysgol wedi cyfnod yn Llechen Lan ond bod y gefnogaeth yn anghyson wedi iddyn nhw ddychwelyd i'w hysgol.
- Mae gwaith Ymestyn Allan Llechen Lan yn fwy datblygiedig gyda'r sector cynradd, ac mae heriau capasiti o ran y sector uwchradd.
- Mae'r seicolegwyr addysg wedi darparu hyfforddiant mewn trawma ac ymlyniad i'r ysgolion. Anaml y daw galwadau iddyn nhw weithio yn yr hybiau, ac fe hoffai'r tîm gynnig ymyraethau therapiwtig i ddisgyblion yr hybiau.

**Argymhelliad:**

**Mewn partneriaeth ag arweinwyr ysgolion, dylai'r Awdurdod Lleol sicrhau fod y map clir sydd wedi ei gyhoeddi o ymatebion wedi'u graddio i gefnogi disgyblion ACEY wedi ei ddeall a'i dderbyn gan bob ysgol. Mae hyn yn cynnwys y daith o gamau gweithredu ysgol, atgyfeirio cychwynnol, dysgu proffesiynol i staff, ymgysylltu'n uniongyrchol â'r dysgwr, addasiadau cwricwlaidd, gweithgaredd asiantaethau allanol, ac ati.**

**Cynllunio Strategol yr ALl o ddarpariaeth hybiau**

**Statws y canolfannau**

- Oherwydd y ffaith bod yr hybiau'n cael eu rheoli gan ysgolion unigol yn hytrach na'r awdurdod lleol, nid ydynt wedi'u cofrestru fel Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCD). O ganlyniad, nid ydynt yn destun arolygiadau Estyn llawn nac i brotocolau a chanllawiau a dderbynnir fel normau ar draws y sector hwnnw yn genedlaethol. Ni fyddai hyn yn broblem ynddo'i hun, pe bai systemau cadarn ar waith ar gyfer monitro a gwerthuso effeithiolrwydd yr hybiau. Fodd bynnag, nid yw'r systemau hyn wedi'u sefydlu.
- Byddai arolygiad Estyn mae'n debyg wedi nodi diffygion o bwys, gan gynnwys:
  - diffyg addysgu gan athrawon cymwys
  - darpariaeth ran-amser i lawer o'r disgyblion
  - presenoldeb isel
  - cwricwlwm amgen a gweithgareddau cyfoethogi cyfyng
  - materion diogelu
- Mae manteision posibl cysylltu hybiau ag ysgolion unigol yn sylweddol. Maent yn cynnwys:
  - galluogi disgyblion, lle bo hynny'n berthnasol, i ddilyn cyrsiau arbenigol yn yr ysgol
  - caniatáu i staff ddarparu mewnbwn arbenigol yn y ganolfan
  - rhoi mynediad i ddisgyblion at gyfleusterau ac adnoddau nad ydynt ar gael yn yr hwb ei hun
  - galluogi staff y ganolfan i gael mynediad at hyfforddiant prif ffrwd
  - caniatáu i staff fod yn rhan o'r system rheoli perfformiad ysgolion ac agweddau eraill ar fywyd yr ysgol, o ran cefnogaeth a chyfeiriad gyrfa
- Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o'r canolfannau ar safle'r ysgol. Mae'r un hwb sydd ar safle Ysgol Y Moelwyn erbyn amser yr adolygiad hwn yn gweithredu ar gyfer un disgybl yn unig.

**Argymhelliad: Mae angen i'r hybiau gael eu cofrestru fel Unedau Cyfeirio Disgyblion er mwyn sicrhau bod disgyblion yn derbyn y ddarpariaeth sydd ei hangen arnynt a' r hybiau yn cael eu rheoli a'u monitro yn unol â disgwyliadau cenedlaethol.**

**Cyllido'r Hybiau**

- Does dim opsiwn rhad i ddarparu addysg i ddisgyblion tu allan i ysgolion prif ffrwd, a gall darpariaeth preswyl gostio mwy na £250k y flwyddyn i bob disgybl.
- Mae'r memorandwm o ddealltwriaeth yn nodi trefniadau ariannu'r hybiau - £158k i bob HWB ar gyfer blwyddyn 2023-2024 (chwyddiant o £11k o 22/23). Mae'r cyllid yn cael ei ddirprwyo i gyllid yr ysgol.
- Er fod yr arian yn cael ei ddirprwyo i gyllideb yr ysgol, dylai fod gan yr ,ALl gyfrifoldeb dros fonitro'r hybiau, a'u cyllidebau.
- Hyd y gwelwn, nid yw'r ALl yn monitro'r defnydd o gyllid gan yr ysgolion ar eu hybiau.
- Mae diffyg cyd-ddealltwriaeth ynghylch a yw'r cyllid yn ddigonol i ddarparu addysg o ansawdd uchel i'r disgyblion yn yr hybiau.
- Mae'r awdurdod lleol wedi dyrannu'r cyllid ar gyfer yr hybiau i'r ysgolion i'w datblygu fel y bo'r angen. O ganlyniad, does dim cysondeb amlwg yn y strwythurau staffio. Mae pennaeth hwb ym Mangor/Caernarfon sy'n gyflogedig fel dirprwy bennaeth ysgol uwchradd.
- Gellid disgwyl i uwch reolwr profiadol o ysgol uwchradd arwain ar yr addysgu ac enghreifftio addysgeg effeithiol i'r staff cynorthwyol. Ar hyn o bryd, nid yw hyn yn ran o rôl pennaeth yr hwb.
- Ychydig sy'n cael ei wario ar weithgareddau cwricwlwm amgen neu ar raglenni cyfoethogi sy'n hanfodol i'r disgyblion hyn.
- Mae'r ddwy ysgol sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am reoli'r hybiau yn teimlo nad yw'r adnodd a ddyrannir gan yr ALl yn ddigonol. Fodd bynnag, mae swyddogion yr awdurdod yn cymryd golwg wahanol ar y mater. Dylid gwerthuso yn union beth mae'r awdurdod yn ei ddisgwyl o'r gyllideb a ddyrannir.
- Mae'r colegau (ac o bosib cyflogwyr) yn ymwybodol o anghenion y disgyblion hyn, ac yn aml yn disgwyl bod aelod staff yn mynychu'r coleg gyda'r disgybl. Mae hyn yn realistig yn unig am fod presenoldeb yn isel yn yr hybiau. Os bydd presenoldeb yn gwella o fewn yr hybiau, bydd angen i'r Awdurdod a'r hybiau drafod sut i staffio mynediad i'r Coleg, tra hefyd yn cynnal addysgu i grwpiau nol yn yr hwb

**Argymhellion:**

**Bod yr awdurdod lleol a'r ddwy ysgol hwb yn cydweithio i werthuso defnydd a maint y cyllid a ddarperir i'r ysgolion i gynnal yr hybiau.**

**Gwerthuso'r swyddi sydd eu hangen i sicrhau rheolaeth, addysgeg a chynhaliaeth effeithiol i'r disgyblion o fewn yr hybiau.**

**Staffio**

Mae gan y tair canolfan strwythurau staffio gwahanol iawn:

Y Moelwyn:

- 1 Swyddog cynhwysiad,
- 2 gymhorthydd
- cefnogaeth cychwynnol gan bennaeth lles a chynhwysiad Ysgol y Moelwyn.

(ar adegau mae un aelod o staff yn gweithio yn Nhy'r Ysgol yn y Moelwyn gydag un disgybl yn unig, am fod y gweddill ym Mhorthmadog).

Caernarfon a Bangor:

- Pennaeth yr Hwb (sy'n ddirprwy bennaeth ysgol Tryfan)
- 3 Uwch Gymhorthydd ym Mangor
- 2 Uwch Gymhorthydd yng Nghaernarfon

- Er mwyn symud ymlaen yn effeithiol, byddai cysondeb mewn arferion yn fuddiol.
- Dylid cydnabod, er nad ydynt yn gymwys fel athrawon, fod y staff cynorthwyol wedi ymrwymo'n eithriadol i'w gwaith a'u bod wedi datblygu perthnasoedd cadarnhaol iawn o ymddiriedaeth gyda'r disgyblion.
- Mae disgrifiad swydd ar gyfer yr Uwch Gymorthyddion yn hybiau Arfon yn cynnwys y rolau a'r cyfrifoldebau canlynol:

  - ➢ Cynllunio, paratoi a chyflwyno elfennau o'r pynciau craidd, cwricwlwm - ehangach ynghyd â chwricwlwm therapiwtig i unigolion neu grwpiau.
  - ➢ Monitro, asesu, cofnodi ac adrodd ar lwyddiannau yr elfennau yma.
  - ➢ Cofnodi yn drylwyr, gynnydd a chyflawniad a darparu tystiolaeth o ystod a lefel cynnydd a chyrhaeddiad.
  - ➢ Asesu, cofnodi ac adrodd ar gynnydd disgyblion.

- Mae'r uchod yn fwy priodol i swydd ddisgrifiad athro. Yn ogystal, mae arweinydd Hwb y Moelwyn yn gweithio i'r un swydd ddisgrifiad â'r Uwch Gymhorthyddion yn y Tryfan, er bod dirprwy bennaeth ysgol uwchradd llawn amser yn arwain Hwb Tryfan.
- Nid ydym wedi gweld swydd ddisgrifiad pennaeth hwb Arfon.
- Yn achos Ysgol y Moelwyn, bu uwch athro yn yr ysgol ynghlwm â datblygiad yr hwb, ond erbyn hyn wedi lleihau ei ymwneud â'r hwb.

**Argymhellion**

**Gwerthuso'r rolau sydd eu hangen i redeg yr hybiau ac adolygu disgrifiadau swyddi staff presennol i sicrhau fod cyflogau a chyfrifoldebau yn gydnaws a'i gilydd.**

**Creu strwythur staffio priodol ar gyfer pob un o'r hybiau, gan gynnwys y posibilrwydd o reolwr cyffredinol ledled y sir.**

**Datblygiad proffesiynol i staff yr hybiau**

- Mae diffyg cysondeb yn yr hyfforddiant a dderbynnir gan staff yn y canolfannau
- Mae'r holl staff a siaradodd wedi dweud eu bod wedi derbyn hyfforddiant Management of Actual or Potential Aggression (MAPA).
- Mae staff yng Nghaernarfon yn teimlo eu bod yn derbyn llawer o hyfforddiant, ond hefyd yn elwa o fod yn ddau gyn-athro.
- Mae staff ym Mangor yn dweud bod yr hyfforddiant maen nhw wedi'i dderbyn ar y cyfan wedi ei dargedu at staff oedran cynradd.
- Er bod hyfforddiant fel ELSA yn cael ei gynnig i'r holl staff yn y canolfannau, nid yw pob aelod o staff yn manteisio ar y cyfle.
- Yn ddiweddar iawn, mae swyddogion ansawdd wedi trefnu hyfforddiant ADY ar gyfer staff yr hybiau, gan gydnabod bod gan lawer o'r disgyblion yn y canolfannau anghenion dysgu yn ogystal ag anghenion ACEY.
- Adroddodd rai o staff cynorthwyol Bangor bod disgwyl iddynt farcio gwaith disgyblion ond nad ydyn nhw wedi cael eu hyfforddi i wneud hyn. Nid ydynt yn ymwybodol o agweddau arwyddocaol fel asesu ar gyfer dysgu.
- Nid yw pob aelod o staff yn yr hybiau wedi derbyn lefel briodol o hyfforddiant diogelu diweddar.
- Heblaw am bennaeth hwb Arfon, sydd wedi ymweld â unedau cyfeirio ar draws y gogledd, ychydig iawn o gyfleoedd sydd gan staff i ymweld â lleoliadau eraill i arsylwi arfer dda.
- Nodir fod pennaeth hwb Arfon wedi cynrychioli'r Awdurdod ar weithgor rhanbarthol UCD.

| **Argymhellion:**<br><br>**Dylai swyddogion yr awdurdod weithio gyda'r Hybiau/ysgolion i sefydlu rhaglen ddysgu broffesiynol.**<br><br>**Dylai hyn gynnwys hyfforddiant gorfodol (fel diogelu) a hyfforddiant yn ôl yr angen i gyd-fynd ag anghenion y staff a'r disgyblion. Byddai disgwyl i raglen hyfforddiant gynnwys agweddau ar addysgu a dysgu, ADY, rheoli ymddygiad, diogelu, cefnogi disgyblion ag anghenion emosiynol.**<br><br>**Datblygu hyfforddiant anwytho ar gyfer staff newydd.**<br><br>**Sicrhau bod cysondeb yn yr hyfforddiant a ddarperir i staff ar draws yr holl hybiau.**<br><br>**Darparu cyfleoedd i staff pob canolfan ymweld â lleoliadau eraill i arsylwi arfer dda.**<br><br>**Cryfhau cysylltiadau â rhwydweithiau a grwpiau ymddygiad cenedlaethol ac Unedau Cyfeirio Disgyblion.** |
|---|

**Y Lleoliadau**

- Does dim un o’r lleoliadau yn ddelfrydol, fel y nodir yn y tablau isod.
- Mae penaethiaid yr ysgolion yn dweud mai arnyn nhw mae’r cyfrifoldeb o ddod o hyd i lety priodol.

**Tŷ’r Ysgol yn Y Moelwyn**

| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| Digon o ystafelloedd a photensial mawr<br><br>Mae agosrwydd i'r ysgol yn golygu y gall disgyblion fynychu gwersi yn y brif ffrwd lle bo hynny'n briodol a gall athrawon ddod draw i ddysgu pynciau mwy arbenigol - a rhoi cyngor ar y cwricwlwm<br><br>Gellir gosod gwaith ar y waliau gan nad yw'r adeilad fel arfer yn cael ei ddefnyddio gan eraill | Mae agosatrwydd i'r ysgol yn golygu bod disgyblion yr hwb yn gallu mynd i drafferthion gyda disgyblion yn yr ysgol<br><br>Lleoliad oer, caled, anatyniadol i lawr y grisiau. Mae gwaith disgyblion ar y waliau i fyny'r grisiau. Angen buddsoddiad sylweddol i wella’r adeilad i gyflawni’r dibenion y gobeithir amdanynt. |

**Clwb Pêl-droed Porthmadog**

| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| Ystafell ddosbarth, cegin a swyddfa maint da. Mae drws i ardaloedd eraill yn cael ei gloi pan fydd eraill yn yr adeilad.<br><br>Lleoliad cynnes deniadol.<br><br>Mae’n bosib i’r disgyblion ddefnyddio rhai o’r cyfleusterau chwaraeon.<br><br>Gwirfoddolwr yn y clwb pel droed yn gefnogol iawn i staff a disgyblion yr hwb. | Dim ond un ystafell i’r disgyblion.<br><br>Mae staff yn teimlo ei bod yn rhy agos i'r dref sy'n ei gwneud hi'n hawdd i ddisgyblion ddiflannu.<br><br>Ni ellir gosod gwaith disgyblion ar y waliau.<br><br>Mae'n rhaid rhoi'r offer i gadw ar ddiwedd pob sesiwn. |

**Bangor – Capel Berea Newydd**

| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| Adeilad modern gyda digon o le, gydag ystafelloedd o feintiau amrywiol, gan gynnwys cegin.<br><br>Mae aelodau'r capel yn gefnogol a sensitif iawn e.e. pan dorrwyd ffenestr | Dim ardaloedd awyr agored i ddysgwyr<br><br>Mae'r adeilad yn cael ei ddefnyddio gan aelodau o'r cyhoedd - nid yw disgyblion yn hoffi hyn<br><br>Ar adegau, e.e. pan fydd angladd, mae'n rhaid canslo sesiwn<br><br>Ni ellir arddangos gwaith y plant ar y waliau.<br><br>Disgyblion a staff yn teimlo diffyg perchnogaeth<br><br>Mae'n rhaid rhoi'r offer i ffwrdd ar ddiwedd pob sesiwn. |

**Caernarfon – clwb pêl-droed**

| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| Lleoliad cymharol bwrpasol. | Un ystafell ddosbarth yn unig, gydag acwsteg caled.<br><br>Ni ellir gosod gwaith ar y waliau.<br><br>Mae'n rhaid rhoi'r offer i ffwrdd. |

- Mae asesiadau risg addas wedi'u cwblhau ar gyfer rhai o'r safleoedd a ddefnyddir, gan gynnwys Capel Berea a darpariaeth oddi ar y safle ar gyfer disgyblion hwb y Moelwyn. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod asesiad risg ar gyfer tŷ ysgol y Moelwyn.
- Mae enghreifftiau o asesiadau risg addas ar gyfer disgyblion unigol.
- Mae rhai asesiadau risg yn fwy addas ar gyfer ysgolion prif ffrwd ac nid ydynt yn ddigon penodol ar gyfer darpariaeth hybiau. Er enghraifft i hybiau Arfon mae dau asesiad o'r enw "Defnydd bws mini'r ysgol" ac "Ymddygiad heriol." Dyw rhain ddim yn ddigon penodol i amgylchiadau na natur yr hybiau.

**Argymhellion:**

**Dylai'r ALI flaenoriaethu sicrhau llety priodol ar frys sy'n cynnig amgylchedd dysgu addas ac sy'n ddiogel i bob disgybl. Gallai hyn olygu gwariant ar y safleoedd presennol i oresgyn rai o'r anawsterau.**

**Dylai'r ALI a'r ysgolion hybiau sicrhau bod asesiadau risg addas ar gyfer yr holl adeiladau a ddefnyddir, gan gynnwys ardaloedd awyr agored.**

**Dylai'r ALI a'r ysgolion hybiau sicrhau bod asesiadau risg addas ar gyfer yr holl agweddau perthnasol o fywyd yr hybiau, sy'n benodol i anghenion y disgyblion dan sylw.**

**Sut i atgyfeirio disgyblion i'r canolfannau a Llechen Lan**

- Mae'r awdurdod lleol wedi llunio canllawiau clir ar y camau i'w cymryd cyn gwneud atgyfeiriad. Mae rhain yn seiliedig ar yr hyn y dylai ysgol fod yn ei wneud cyn atgyfeirio disgybl, gan eithrio adegau o argyfwng annisgwyl, mae rhain yn briodol. Gellir dod o hyd i'r camau hyn yn Atodiad 3.
- Er gwaethaf yr uchod, mae sawl pennaeth yn dweud nad ydyn nhw'n gwybod sut i gaffael lle i ddisgybl yn un o'r hybiau. Mae eraill yn dweud, pan fydd disgyblion yn cael eu gwrthod, nid yw'r ysgol yn derbyn esboniad pam.
- Mae aelodaeth y panel sy'n gwneud y penderfyniadau ar leoliad yn y canolfannau yn cynnwys swyddogion o'r Awdurdod Lleol a phenaethiaid y Moelwyn a Tryfan, ond nid yw'n cynnwys penaethiaid eraill. Mae llawer o Awdurdodau Lleol yn cynnwys ystod eahangach ar eu paneli perthnasol e.e. bydd bob pennaeth uwchradd yno ar rota, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod i gyd yn deall y drefn. Mewn llawer o Awdurdodau Lleol sy'n gwneud hyn, mae penaethiaid yn dweud bod presenoldeb yn y panel yn gwneud iddynt sylweddoli pa mor drylwyr y caiff ceisiadau eu hystyried. Yn ogystal, maen nhw'n gweld yr amrywiaeth rhwng ysgolion o ran yr hyn maen nhw'n ei ddarparu cyn gwneud atgyfeiriad.

**Argymhellion:**

**Cwrdd ag ysgolion i drafod y meini prawf mynediad presennol i sicrhau bod gan bob un ddealltwriaeth gytun.**

**Gwahodd penaethiaid neu uwch reolwyr uwchradd i eistedd ar baneli ar sail rota, fel eu bod yn cael gwell dealltwriaeth o'r prosesau.**

**Sicrhau ansawdd**

- Mae tipyn o aneglurder am gyfrifoldeb yr awdurdod a chyfrifoldebau'r ysgolion o ran diogelu ansawdd a monitro safonau yn yr hybiau. Hyd yn hyn, rhoddwyd cyfrifoldeb sylweddol ar yr ysgolion o ran arferion monitro ansawdd yr addysgu ac ansawdd y lleoliadau. Yn y Memorandwm o Ddealltwriaeth 6.6 mae'n dweud "Gan mai comisiwn darpariaeth yw hwn bydd gan yr awdurdod gyfrifoldeb clir dros ansawdd, cysondeb a rheolaeth y ddarpariaeth, ar y cyd gyda'r ysgolion sydd yn darparu". Mae angen gweithredu eglur ar bwynt 6.6
- Mae comisiynu adolygiad annibynnol yn gam cadarnhaol.
- Sefydlwyd Bwrdd Rheoli i oruchwylio gwaith yr hybiau. Mae cylch gorchwyl clir ar gyfer y Bwrdd Rheoli, gan gynnwys y gofyniad i gwrdd yn chwarterol

(gyda chyfarfodydd ychwanegol os oes angen). Fodd bynnag, dim ond unwaith ym mis Mawrth 2023 y mae wedi cyfarfod ac unwaith ym mis Gorffennaf 2023. Does dim cyfarfodydd wedi bod ers mis Gorffennaf.

- Mae aelodaeth o'r Bwrdd yn briodol ar y cyfan. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol cynnwys penaethiaid ysgolion uwchradd heblaw Y Moelwyn a Tryfan (o bosib ar sail rota), er mwyn sicrhau bod ysgolion ar draws Gwynedd yn cymryd perchnogaeth o agwedd mor bwysig o ddarpariaeth.
- Mae cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli 16/3/23 yn adlewyrchu'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiadau gan arweinwyr y ganolfan. Nid oes tystiolaeth o her gan y Bwrdd. Nodir pryderon ond heb unrhyw gamau gweithredu clir, nac amserlen weithredu na swyddogion i gymryd cyfrifoldeb. O ganlyniad, mae'n anodd gweld sut y bydd gwelliannau'n cael eu gwneud.
- Cynhyrchwyd cofnodion drafft cyfarfod mis Gorffennaf ym mis Rhagfyr. Nid yw'n glir pam y bu yr oedi hwn. Maent yn ddrafft yn unig, heb unrhyw gofnod o bwy oedd yn bresennol ar ba ddyddiad. Nid yw'r cofnodion yn ddigon manwl i ddangos yr hyn a drafodwyd na pha gamau sydd eu hangen. Nid oes tystiolaeth o'r cofnodion hyn fod cofnodion y cyfarfod blaenorol wedi cael eu cytuno neu gyfeirio atynt, fel y byddai disgwyl mewn cyfarfodydd bwrdd rheoli. Nid yw'r templed yn ei gwneud hi'n hawdd i gofnodi gweithredoedd y cytunwyd arnynt neu gynnydd yn erbyn camau gweithredu blaenorol.
- Mae'r bwrdd rheoli yn derbyn adroddiadau gan yr hybiau. Er bod y rhain yn darparu rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol, ar y cyfan maent yn rhy gadarnhaol ac nid ydynt yn adlewyrchu pryderon fel y rhai a godwyd gan Estyn neu yn yr adroddiad hwn.
- Mae cynlluniau datblygu sy’n berthnasol i’r hybiau ond maent yn anghyson. Yn Arfon mae Cynllun Datblygu Hybiau Cynhwysiad Arfon. Nid yw'r cynllun yn nodi'n ddigon penodol yr hyn sydd angen ei wneud erbyn dyddiadau penodol er mwyn sicrhau gwelliant. Ar y llaw arall, nid oes cynllun datblygu penodol i hwb y Moelwyn, ond mae ystyriaeth gyfyngedig iawn i’r hwb yng nghynllun datblgyu’r ysgol.
- Mae'r cynllun ddatblygu Arfon wedi ei raddio RAG. Lle mae camau gweithredu yn cael eu graddio'n wyrdd, dylid cofnodi gwybodaeth am yr hyn yn union sydd wedi'i wneud. Pan fydd gweithredoedd yn cael eu graddio'n felyn neu goch, mae angen dadansoddiad o pam nad yw'r camau hyn wedi'u cwblhau.
- Ers mis Medi 2023, gofynnwyd i ddwy swyddog ansawdd o’r Sir i gefnogi'r hybiau. Mae hyn yn gam cadarnhaol iawn. Fodd bynnag, mae eu gwaith dimond newydd gychwyn. Mae angen neilltuo digon o amser i'r staff hyn ddod i adnabod yr hybiau'n dda, deall y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu a’u gallu i ddarparu mewnbwn addas.
- Dywed y swyddogion ansawdd fod y ddau aelod o staff sy'n rheoli'r hybiau yn croesawu eu cyfraniad. Maen nhw wedi nodi nad oes gan lawer o'r disgyblion ddarpariaeth llawn amser; nid yw'r cymwysterau presennol a gynigir yn yr

hybiau yn addas ar gyfer pob disgybl; ac mae gan lawer o'r disgyblion ADY yn ogystal â materion ymddygiadol. Mewn ymateb i hyn, maent wedi dechrau edrych ar fapiau darpariaeth, trafod cymwysterau Agored Cymru a sefydlu hyfforddiant ADY. Byddai'n dda iddynt hefyd hwyluso cydweithrediad traws adrannol o fewn y sir.

**Argymhellion:**

**Mae angen adolygu pwrpas y bwrdd rheoli a'i ffurfioli yn unol â'r Memorandwm o ddealltwriaeth, gan sicrhau bod gan bob aelod ddealltwriaeth glir o'i bwrpas.**

**Sicrhau bod adroddiadau i'r bwrdd rheoli yn amlygu unrhyw bryderon a bod y bwrdd yn trafod rhain yn gadarn, gan ddarparu cefnogaeth a her.**

**Sicrhau bod templedi adroddiadau yn cael eu cwblhau'n llawn gan yr hybiau.**

**Cynhyrchu cofnodion clir sy'n adlewyrchu trafodaethau sy'n digwydd a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt.**

**Dylid ystyried gwahodd benaethiaid uwchradd (o bosibl ar sail rota) i fynychu cyfarfodydd Bwrdd Rheoli i hyrwyddo perchnogaeth o wasanaethau cynhwysiant.**

**Creu cynllun datblygu llawn i'r hybiau, ar wahân i gynlluniau datblygu'r ysgolion, gyda meysydd amlwg i'w gwella.**

**Gwneud yn eglur rolau a chyfrifoldebau'r ysgolion hwb a'r ALl mewn perthynas â sicrhau ansawdd y canolfannau.**

**Sicrhau bod prosesau priodol ar waith, er enghraifft rheoli perfformiad/goruchwylio, arsylwi gwersi, teithiau dysgu, craffu ar waith disgyblion.**

**Datblygu systemau ar gyfer hunanwerthuso gyda'r swyddogion ansawdd er mwyn hwyluso cynllunio gwella sy'n galluogi staff i nodi meysydd ar gyfer datblygu a strategaethau sydd eu hangen i wneud gwelliannau gofynnol.**

**Cydweithio rhwng y canolfannau**

- Er bod y ddau arweinydd hwb yn cyfarfod neu'n siarad â'i gilydd yn anffurfiol, hyd yn hyn prin fu'r cyswllt rhwng y ddwy ganolfan sy'n golyggu nad oes fawr o rannu arfer dda a manteisio ar ddysgu oddi wrth ei gilydd.
- At ei gilydd, gadawyd y ddau arweinydd hwb i ddatblygu'r hybiau yn eu ffordd eu hunain.
- Mae'r Memorandwm o Ddealltwriaeth a'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Bwrdd Rheoli yn disgrifio grŵp gweithredol fydd yn cyfarfod 3 gwaith y tymor yn y flwyddyn gyntaf i gael ei adolygu ar gyfer y blynyddoedd dilynol. Does dim tystiolaeth fod pethau wedi digwydd yn y ffordd a ddisgwyliwyd.

| |
|---|
| **Argymhellion:**<br><br>**Mae angen ffurfioli trefniadau'r grŵp Gweithredol**<br><br>**Dylai Swyddogion Ansawdd weithio gyda'r Hybiau i sefydlu dulliau i rannu arfer dda, cyd-gynllunio a dysgu proffesiynol.** |

**Gwaith partneriaethol**

- Mae teimlad cyffredinol bod staff yr hybiau wedi cael eu gadael i fwrw ymlaen â phethau gyda chefnogaeth amrywiol gan bartneriaid.
- Yng Nghaernarfon, mae staff yn dweud eu bod wedi ceisio ymgysylltu â gweithwyr ieuenctid ond wedi cael gwybod nad oes capasiti digonol yn y gwasanaeth i'w cefnogi
- Mae gan y Sir uwch gwnselydd, sydd â thîm o 12. Ymddengys mai prin iawn yw'r ymwneud gyda'r hybiau. Dywed y cymhorthyddion eu bod yn teimlo eu bod yn gwneud rôl cwnselwyr yn ogystal ag addysgu.
- Does dim fawr o dystiolaeth fod timau o fewn y gyfarwyddiaeth addysg nac ar draws y cyngor yn ehangach yn gweithio'n gyda'i gilydd i gefnogi'r hybiau.
- Cyfeiriodd nifer o'r rhai a holwyd at y ffaith eu bod yn teimlo y gallai gweithwyr cymdeithasol weithio gyda nhw yn fwy effeithiol i fynd i'r afael â materion cymhleth i'r bobl ifanc. Mae rhai naratifau mwy cadarnhaol, ond yn gyffredinol sonir fod trosiant uchel staff gweithwyr cymdeithasol yn gwneud cydweithio yn fwy anodd.
- Er bod nifer fach iawn o ddisgyblion hwb yn mynychu cyrsiau coleg, mae lle i wella cysylltiadau â'r coleg ar lefel strategol. Fodd bynnag, yn ddiweddar iawn mae adroddiad cadarnhaol iawn am Goleg Menai yn ymgysylltu â dysgwr drwy'r hwb i gefnogi llwybr dilyniant clir a pherthnasol iawn i'r person ifanc.

**Argymhelliad:**

**Dylai'r awdurdod lleol gymryd y cyfle i edrych at gryfhau cydlyniant o fewn y cyngor a chyda asiantaethau eraill (gan gynnwys Addysg Bellach) i gefnogi addysg y disgyblion hyn.**

## Materion eraill a ddaeth yn amlwg yn ystod yr adolygiad

Prif ffocws yr adolygiad oedd i edrych ar yr hybiau a'r gwasanaethau cefnogol ar lefel strategol. Fodd bynnag, byddai'n talu ffordd i'r Awdurdod Lleol i ystyried y materion canlynol wrth symud ymlaen.

### Diogelu

- Mae sgyrsiau gyda disgyblion a gwybodaeth o arolygon diweddar i rieni a disgyblion yn awgrymu bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr hybiau.
- Yn gyffredinol, roedd staff a siaradwyd â nhw yn gwybod beth i'w wneud pe bai disgybl yn datgelu neu wneud honiad yn erbyn aelod o staff. Fodd bynnag, nid oes unrhyw bolisïau diogelu sy'n benodol i'r hybiau a dim gwybodaeth ar y waliau sy'n dangos pwy yw'r Person Diogelu Dynodedig (PDD) a'i Dirprwy (lle bo'n berthnasol).
- Yn achos honiad yn erbyn y PDD/Pennaeth, nid yw'n glir yn union at bwy ddylai staff neu ddisgyblion fynd ato/ati. Mae'r ffaith nad yw'r hybiau ar safle'r ysgolion yn golygu y dylid arddangos rhifau ffôn o bwy i gysylltu â nhw yn glir.
- Wrth ymweld â'r Moelwyn, fe wnaethon ni lofnodi i mewn yn yr ysgol a chael laniards. Roedd gwybodaeth ddiogelu ar y papur a fewnosodwyd yn y laniard y gofynnwyd i ni ei ddarllen.
- Wrth ymweld â safleoedd eraill, ni ofynnwyd i ni fewngofnodi ac ni chawsom laniards na gwybodaeth diogelu.
- Yn ystod yr ymweliadau, ni ofynnodd neb am wybodaeth ar ein DBS er, ar un safle, cynhaliwyd cyfarfod gyda disgyblion heb unrhyw aelod o staff yn bresennol N.B. Roedd gan y ddau ohonom DBS priodol.
- Roedd paneli gwydr yn y drysaau yn yr holl adeiladau yr ymwelwyd â nhw. Fodd bynnag, yn nhŷ ysgol y Moelwyn, mae gwaith 1:1 yn digwydd heb unrhyw oedolyn na disgybl arall yn yr adeilad. Dywedodd arweinydd y ganolfan ei fod wedi cael gwybod bod hyn yn dderbyniol oherwydd agosrwydd y tŷ i'r ysgol. **Mae hwn yn faes pwysig sy'n peri pryder**.

- Pan ofynnwyd i aelodau staff a oeddent wedi derbyn hyfforddiant diogelu, nid oedd pawb yn deall ystyr hyn. Soniodd rhai eu bod wedi derbyn y fath hyfforddiant mewn swydd flaenorol, ond ddim tra yn y swydd hon.
- Mae'n hawdd i ddisgyblion ddianc o bob un o'r safleoedd - nid yw'r agwedd hon ar ddiogelu wedi'i chynnwys yn ddigon da mewn asesiadau risg.

**Argymhellion:**

**Cynhyrchu polisi diogelu penodol/pwrpasol ar gyfer pob un o'r canolfannau a phob lleoliad a ddefnyddir**

**Sicrhau bod holl staff yr hybiau wedi derbyn lefel briodol o hyfforddiant diogelu.**

**Sicrhau bod ymwelwyr yn cael eu gofyn i fewngofnodi a gwisgo laniard ym mhob lleoliad.**

**Sicrhau bod gwybodaeth am bwy yw'r person diogelu dynodedig ym mhob lleoliad yn cael ei arddangos yn glir (er na ellir rhoi posteri ar y waliau mewn rhai lleoliadau).**

**Cynhyrchu asesiadau risg yn cynnwys canllawiau ar beth i'w wneud pan fod disgybl yn dianc.**

**Dylid peidio a gweithio 1:1 gyda plentyn heb fod oedolyn arall yn gallu tystio i ddiogelwch plentyn ac aelod staff.**

### Dysgu ac Addysgu

- Mae gan bob disgybl amserlen unigol wedi ei deilwra i'w cwricwlwm dewisol.
- Mae amrywiaeth sylweddol yn nifer yr oriau dysgu ac addysgu a gynigir i'r disgyblion. Mae rhai yn derbyn 25 awr yr wythnos ond mae rhai yn derbyn cyn lleied ag 8 awr.
- Yn un o'r hybiau roedd boreau cyfan yn cael eu neilltuo i un pwnc e.e rhifedd neu lythrennedd. Byddai'n dda gweld mwy o amrywiaeth ar draws y diwrnod, gyda sesiynau byrrach.
- Mae'r cyfleoedd i wneud y cwricwlwm llawn yn gyfyng (yn rhannol o achos natur y safleoedd), ac mae'r disgyblion yn colli allan yn sylweddol ar agweddau megis gwyddoniaeth ymarferol ac addysg gorfforol.
- Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r cwricwlwm yn cael ei ddarparu gan staff nad oes ganddynt gymwysterau addysgu. O ganlyniad, mae yna ddibyniaeth drom ar lyfrau gwaith. Er bod y cynnwys yn addas ar y cyfan, ychydig o

ddisgyblion sy'n cael eu cymell trwy eistedd wrth ddesg am gyfnodau estynedig.

- Does dim digon o gyfleoedd ar gael i'r disgyblion wneud elfennau pwysig iawn fel pynciau ymarferol ac ymarfer corff.
- Nid yw gwahaniaethu i ddiwallu anghenion dysgwyr unigol bob amser yn digwydd. Er enghraifft, mae disgyblion o wahanol alluoedd o fewn dosbarth i gyd yn gweithio o'r un llyfr gwaith waeth beth yw eu lefelau llythrennedd neu rifedd.
- Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn mynychu gwersi yn yr ysgol hwb lle bo hynny'n bosibl. Fodd bynnag, mae hyn yn digwydd yn llai aml nag y gobeithiwyd. Mae hyn yn rhannol oherwydd y ffaith bod disgyblion yn ei chael hi'n anodd ailintegreiddio i'r amgylchedd ysgol. Mae symud i hybiau oddi ar y safle hefyd yn gwneud hyn yn fwy anodd.
- Y bwriad oedd y byddai athrawon o Ysgol Tryfan ac Ysgol Y Moelwyn yn dod i'r hybiau i gynnig gwersi lle bo hynny'n berthnasol. Mae hyn wedi digwydd mewn rhai achosion ond nid yw'n gyson ar draws y canolfannau. Mae'r symud o dŷ'r ysgol ar safle Moelwyn i glwb pêl-droed yn golygu ei bod hi'n anoddach i staff ysgolion roi mewnbwn uniongyrchol i'r hwb.
- Er fod trefniadau wedi eu gwneud gyda'r Coleg Milwrol, y coleg addysg bellach, a peth profiad gwaith, nifer fach o'r disgyblion yn yr hybiau sy'n cael y cyfleoedd hyn, ac mae'r amser a neilltuir i rhain yn aml yn gymharol fach.

**Argymhellion:**

**Sicrhau bod mwy o'r gwaith addysgu yn cael ei wneud gan athrawon cymwys.**

**Sicrhau bod cymhorthyddion yn cael eu defnyddio'n briodol.**

**Datblygu cwricwlwm ehangach sy'n berthnasol, yn fwy ymarferol, yn cynnig gwahaniaethu ac ystod ehangach o brofiadau.**

**Barn rhieni**

Mewn arolwg o rieni a gynhaliwyd gan ganolfannau Bangor a Chaernarfon, mae rhieni'n canmol eu profiad o'r hybiau. Mae'r rhesymau dros hyn yn cynnwys:

- grwpiau llai

- amgylchedd hamddenol
- sut mae'r staff yn trin y bobl ifanc
- plentyn yn fwy cyfforddus ac yn hapusach
- oriau hyblyg
- staff cefnogol iawn
- caredigrwydd a dealltwriaeth o sefyllfa ac amgylchiadau personol y plentyn
- helpu i’r plentyn gyda'i ddicter
- llai o wrthdaro rhwng dysgwyr

Mewn sgyrsiau gyda rhieni yn ystod yr adolygiad, fe nodwyd gan un fod yr hwb wedi trawsnewid agweddau’r person ifanc gan greu gobaith am ddyfodol gwell. Nododd rhiant maeth fod anghenion y plentyn mor ddwys, ni allai ysgol prif ffrwd na hwb o’r fath ddiwallu anghenion y plentyn, a bydd angen adolygu’r ddarpariaeth yn llwyr yn fuan iawn.

Soniodd pob rhiant a holwyd fod y staff yn yr hybiau wedi gwneud cyfraniad sylweddol iawn i helpu adfer sefyllfa’r bobl ifanc, ac wedi creu ymddiriedaeth ddofn.

**Barn y disgyblion**

Mewn arolwg o ddisgyblion a gynhaliwyd yng nghanolfannau Bangor a Chaernarfon, mae disgyblion hefyd yn siarad yn gadarnhaol am eu profiadau:

- mwy o gefnogaeth
- amserlen sy'n addas
- amserlen hyblyg
- cefnogaeth un i un
- grwpiau llai
- tawelach
- llai o wrthdaro a staff amyneddgar
- llai o bwysau i wneud gwaith
- staff yn gwneud bywyd yn haws
- staff yn fwy dymunol i mi
- nid oes unrhyw blant eraill yn fy mhoeni
- nid ydynt wedi cael eu gwahardd
- hoffi coginio a mynd i'r coleg
- hoffi gwneud hanner diwrnod
- yn dod i mewn am 10 am oherwydd fy mod i'n cael trafferth deffro
- dim gormod o bynciau i gyd ar unwaith

Bu grŵp o ddisgyblion a siaradwyd â hwy yn hwb Bangor yn siarad yn synhwyrol ac aeddfed am eu profiadau.  Roedd pob un yn awyddus i ni wybod eu bod yn teimlo eu bod bellach yn wahanol pobl  i'r rhai a dderbyniwyd i'r ganolfan ar y cychwyn ac wedi aeddfedu'n sylweddol mewn cyfnod byr.

**Atodiad 1 – Y Brîff**

# Gwynedd Brief – Inclusion Provision

- **Evaluate the Impact of the Hub provision (Provision for learners who are experiencing behaviour/emotional and social difficulties) within Gwynedd**
- **Evaluate the wider Inclusion provision map of the Secondary Schools in Gwynedd**
- **Evaluate the central service provision for Inclusion**
- **These will be part of the LAs response to the recent Estyn report**

## 1. BACKGROUND

### *Aim of the study*:

**During January/February 2020, Mrs Caroline Rees was commissioned to carry out a review of the Gwynedd/ Môn Additional Learning Needs (ALN) and Inclusion Strategy. The review took place over a period of 4 weeks.**

A comprehensive report was provided outlining actions for further development and as a result one of the areas identified was the need to develop provision for behaviour in year 9 and key stage 4, including an improved model for Pecyn 25 (which was the alternative provision for learners who were not able to succeed within mainstream Education.

Following from this work, the Inclusion Service as a whole was reorganised to change the Inclusion provision. This included:

- Re-modelling the staffing structure of the Inclusion Service to include additional outreach support and 1 Specialist Resource Base (Llechen Lan)
- Commissioning two Secondary Schools to provide Hubs for young people in year 9-11 with significant emotional, behaviour and social needs, with a focus within the Hubs of providing:
    - Pupils to access a wider range of subjects
    - Pupils being taught y qualified teachers

**The aim of the revised /new provision was to:**

- Improve the continuum of provision offered to CaYP with social, emotional and or behaviour difficulties.
- Provide an appropriate educational provision for learners with social, emotional and/or behaviour difficulties.
- Reduce the number of exclusions especially permanent exclusions
- Reduce the number of children /Young People becoming known to Children's Services or becoming 'NEET'.

**Management and Quality of delivery**

- The ALN and Inclusion Management Board has strategic oversight over services provided centrally.
- The Hub Management Board has the strategic oversight over the commission for providing the Hubs. This Board meets every school term. The Management Board reports to the LA Quality Board.

- The Hub Inclusion team meets every half term where the operational side is discussed.
- Gwynedd Secondary Schools receive an annual Inclusion allocation in order to meet the needs of pupils. This is in addition to the ALN funding.

## 2. THE COMMISSION

1. To evaluate the use of Inclusion Funding by the LA's Secondary Schools, and its impact on inclusion (e.g. exclusions) and use of higher level services (e.g. referrals to other services), and recommendations for further development.
2. To evaluate the range of inclusion services provided by the ALN and Inclusion Service centrally, and provide recommendations in terms of further development.
3. To summarise the current Hub provision and the investment to date, and make recommendations for further development.
4. To evaluate how effectively the local authority assesses the benefits of the provision including outcomes for the:
   - Learners
   - The public sector (including the schools, the Education Authority, Children's services.)
   - The local community and society as a whole

   and make recommendations for improvements.

**Approach**

- Face to face visits (e.g. Hubs, Llechen Lan)
- Interviews with providers and stakeholders
- Exploring Year 11 destinations of pupils in the Hubs
- Evaluating referral processes
- Evaluating the curriculum offer
- Evaluating monitoring and quality assurance processes.

## Atodiad 2 - Paragraffau o adroddiad Estyn

### Pa mor effeithiol y mae’r awdurdod yn diwallu anghenion dysgwyr ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY)?

Dros amser, mae prosesau strategol a gweithredol gwasanaethau addysg Gwynedd i ymateb i anghenion disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol wedi gwella yn sylweddol. Erbyn hyn, mae gweledigaeth arweinwyr i gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion bregus hyn yn glir ac addas.

Mae uwch reolwyr wedi ail drefnu'r gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a chynhwysiad yn briodol. Maent wedi adnabod yr angen i ddarparu’n fwy penodol ar gyfer cefnogi disgyblion bregus a chlustnodi rheolwyr perthnasol i arwain gwahanol agweddau o’r gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys penodi rheolwr cynhwysiad a chynyddu rôl swyddogion ansawdd ADY i gefnogi disgyblion ag anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol. Yn ogystal, mae’r awdurdod wedi cynyddu’r capasiti o fewn y gwasanaeth cefnogi ymddygiad allgymorth i gefnogi ysgolion prif lif gyda disgyblion o oedran derbyn hyd at Flwyddyn 11. Mae’r newidiadau hyn yn cyfrannu’n dda at sicrhau bod nifer y disgyblion sydd mewn addysg ag eithrio yn yr ysgol (EOTAS) yn isel.

Mae gan yr awdurdod ystod o weithdrefnau pwrpasol i gynllunio darpariaeth ac adolygu cynnydd disgyblion ag ADY. Mae’r rhain yn cynnwys y panel ADY a chynhwysiad, y panel dwys, y panel adolygiadau a’r fforwm cymedroli ADY a chynhwysiad. Ar y cyfan, mae pwrpas a chylch gorchwyl llawer o’r gweithdrefnau hyn ynghyd â’r protocol mynediad at wasanaethau yn glir i ysgolion. Fodd bynnag, nid yw’r camau y dylid eu dilyn yn yr ysgol na’r ymyraethau y dylid eu rhoi mewn lle cyn gwneud cais i ddisgybl gael mynediad i’r hybiau cefnogi ymddygiad yr un mor glir.

Mae gwybodaeth werthfawr am ddisgyblion ag ADY ar draws y sir ar gael yn hylaw i randdeiliaid perthnasol trwy lwyfan digidol pwrpasol. Mae hyn yn galluogi ysgolion, arbenigwyr, rhieni a disgyblion i chwarae rhan weithredol wrth gynllunio darpariaeth, monitro, ac adrodd ar gynnydd.

Mae’r gwasanaeth ADY a chynhwysiad yn cynnig cyfleoedd datblygiad proffesiynol pwrpasol i athrawon a chymorthyddion dysgu i’w cynorthwyo i ddarparu ymyraethau buddiol ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant am ymlyniad ac effaith trawma ar blant a phobl ifanc. Darperir ystod o adnoddau a rhaglenni ymyrraeth perthnasol i ysgolion i gefnogi lles disgyblion ar draws yr ystod oedran. Er enghraifft, mae’r gwasanaeth seicoleg addysg wedi paratoi adnoddau gwerthfawr, fel adnoddau meddylgarwch buddiol, er mwyn ceisio dylanwadu’n gadarnhaol ar les disgyblion. Yn ogystal mae’r

awdurdod wedi buddsoddi'n sylweddol i sicrhau bod adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gael i ysgolion ac mae hyn yn nodwedd gref.

Mae protocol a threfniadau 'symud drwy drefniant' yr awdurdod yn briodol ac yn arwain at ddeilliannau cadarnhaol i ddisgyblion yn y mwyafrif o achosion. Mae trefniadau cynnal disgyblion gydag anghenion meddygol difrifol yn gryf.

Darperir cefnogaeth addas i'r rhan fwyaf o ddisgyblion â chanddynt anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol o fewn ysgolion prif lif. Mae'r awdurdod lleol yn darparu cefnogaeth benodol i gwrdd ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ychydig o ddisgyblion mewn pedwar lleoliad amgen. Mae statws y lleoliadau hyn yn annelwig gan nad ydynt yn gofrestredig fel unedau cyfeirio disgyblion er mai fel hynny maent yn gweithredu. Mae Canolfan 'Llechen Lân' ym Mhenygroes yn leoliad addysg tymor byr i ddisgyblion Blwyddyn 5-8. Mae'r ddarpariaeth yn Llechen Lân yn bwrpasol ac mae'r gefnogaeth i'r disgyblion pan maent yn dychwelyd i'w hysgolion yn effeithiol iawn. Mae hyn oherwydd bod y staff arbenigol yno yn rhannu eu harbenigeddau yn llwyddiannus gyda staff yn yr ysgolion prif lif er mwyn cryfhau eu gallu i gefnogi disgyblion ag anawsterau ymddygiadol. O ganlyniad, mae disgyblion sydd wedi mynychu'r adnodd yma yn ail ymgysylltu'n llwyddiannus yn eu mam ysgol yn y rhan fwyaf o achosion.

Ers Medi 2021, mae'r awdurdod wedi gwella ei ddarpariaeth ar gyfer disgyblion hŷn ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol trwy gomisiynu dwy ysgol uwchradd i redeg hybiau mewn tair ardal ar draws Gwynedd. Bellach ceir tri hwb addysg amgen ar gyfer disgyblion Blwyddyn 9-11 ym Mangor, Caernarfon a Blaenau Ffestiniog. Yn gyffredinol mae disgyblion sy'n mynychu'r hybiau yn hapus ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol gyda'u dysgu. Mae staff yr hybiau yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yn y ddarpariaeth a gynigir. Maent yn ymroi i'w cyfrifoldebau gyda chryn fwriad ac ewyllys da er mwyn rhoi profiadau dysgu cadarnhaol i'r disgyblion. Maent yn meithrin perthynas gadarnhaol a chefnogol gyda'r disgyblion a'u rhieni ac mae hyn yn nodwedd arbennig. Maent yn gweithio'n greadigol i geisio rhoi profiadau cwricwlaidd sydd o ddiddordeb i ddisgyblion ac yn cydweithio'n bwrpasol gydag ystod eang o asiantaethau allanol perthnasol. Mae hyn yn cynnwys swyddogion Gyrfa Cymru, gweithwyr ieuenctid, nyrsys ysgol a swyddogion yr heddlu er mwyn cefnogi'r disgyblion a chynllunio'n ofalus ar gyfer y camau nesaf yn eu bywyd. Cynigir darpariaeth addas, o dan arweiniad athrawon pwnc yr ysgolion comisiwn, i ddisgyblion barhau gyda'u cyrsiau arholiad Cymraeg, Saesneg, mathemateg a rhai elfennau o wyddoniaeth ac ychydig o bynciau neu feysydd eraill. Mae bron pob un disgybl ym Mlwyddyn 11 yn sefyll TGAU neu gymhwyster addas arall yn y pynciau craidd ac ychydig iawn o bynciau eraill.

Mae anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol y disgyblion sy'n mynychu'r hybiau unigol yn amrywiol. O ganlyniad, mae teilwra'r ddarpariaeth i gwrdd ag Adroddiad ar Wasanaethau Addysg Cyngor Gwynedd Mehefin 2023 11 anghenion penodol disgyblion unigol o fewn yr hybiau hyn yn her. Mae staff yn ymdrechu i greu awyrgylch gynhaliol bwrpasol ar gyfer dysgu ac i gynorthwyo'r disgyblion i ffynnu'n emosiynol yn yr hybiau. Fodd bynnag, mae gormod o amrywiaeth ym mhriodoldeb yr adeiladau ac yn amrediad yr adnoddau dysgu yn yr hybiau i ddarparu addysg arbenigol sy'n cefnogi lles ac ymddygiad disgyblion bregus.

Er bod swyddogion ansawdd a swyddogion perthnasol eraill yn rhan o drefniant cychwynnol lleoli disgyblion yn yr hybiau, nid oes cyswllt digon cyson rhyngddynt a rheolwyr yr hybiau i'w galluogi i gefnogi eu gwaith a rhoi arweiniad iddynt. Mae hyn yn cynnwys anghysondeb yn nhrefniadau monitro, sicrhau ansawdd ac asesu risg. O ganlyniad nid oes gan uwch swyddogion gwasanaethau addysg Gwynedd drosolwg strategol o'r deilliannau na natur nac ansawdd y ddarpariaeth yn yr hybiau.

**Atodiad 3 - Y Drefn Cyfeirio i Ganolfan Llechen Lan a Hybiau Addysgol**

1) Ysgol yn adnabod unigolyn
2) Ymyrraeth ysgol gyfan:
    - Gweithdrefnau Cynnal Ymddygiad Mewnol
    - Targedu unigolion/grwpiau gan yr Ysgol
    - CDU Ysgol/Awdurdod
    - Boxall
    - Cynllun Bugeiliol
3) Ystyriaethau cyn penderfyniad i gyfeirio:
    - Beth sydd wedi gynnig yn barod?
    - Pwy sydd wedi bod yn cefnogi?
    - Beth yw'r anawsterau?
    - A'i Canolfan/Hwb yw'r lleoliad mwyaf llesol i'r unigolyn?
    - Beth all y Ganolfan/Hwb ei wneud yn wahanol i'r hyn sydd wedi ei gynnig yn barod?
4) YR YSGOL YN ADNABOD YR ANGEN AM LEOLIAD AMGEN
5) Trafodaeth gyda Swyddog Lles a Rheolwr Cynhwysiad i gytuno ar:
    - addasrwydd y cais
    - hysbysu'r rhiant
6) Adolygu neu addasu Cynnlun Datblygu Unigol (CDU) y plenty
7) Cyfeirio'r CDU i sylw'r Panel Cymedroli
8) Panel Cymedroli yn asesu a trafod ceisiadau unigol
9) PENDERFYNIAD:
    - cymeradwyo
    - gwrthod gan nodi rhesymau
10) Rheolwr Cymhwysiad yn hysbysebu ysgolion o'r penderfyniad
11) Llechen Lan/Hwb Addysg i greu map darpariaeth unigol
12) Adolygiad ffurfiol o darpariaeth y plenty bob hanner tymor
13) Adroddiad ar gynnydd i'w gyflwyno i'r Ysgol
14) Monitro darpariaeth yn ei gyfanrwydd